# Arolygiad o dan Adran 28
# Deddf Addysg 2005

## Adroddiad ar Ansawdd Addysg yn

**Ysgol Nant y Coed**
**Rhodfa Ronald**
**Cyffordd Llandudno**
**Conwy**
**LL31 9EU**

**Rhif yr Ysgol: 6622117**

**Dyddiad yr Arolygiad: 06/02/07**

**gan**


**Dorothy Morris**
**16211**



**Dyddiad Cyhoeddi: 19 / 04 / 2007**

**O dan rif contract Estyn: 1109206**

**Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau addysg lleol (AALlau);
- ysgolion cynradd;
- ysgolion uwchradd;
- ysgolion arbennig;
- unedau cyfeirio disgyblion;
- ysgolion annibynnol;
- addysg bellach;
- dysgu oedolion yn y gymuned;
- gwasanaethau cymorth ieuenctid;
- AALlau;
- addysg a hyfforddiant athrawon;
- dysgu yn y gwaith;
- cwmnïau gyrfaoedd; ac
- elfennau addysg, arweiniad a hyfforddiant y Ganolfan Byd Gwaith.

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill; ac
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gsi.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2007: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael o'r ysgol. O dan Ddeddf Addysg 2005, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad yn ddi-dâl i gategorïau penodol o bobl. Gellir

codi tâl nad yw'n fwy na chost ailgynhyrchu ar bobl eraill sy'n gofyn am gopi o'r adroddiad.
Arolygwyd Ysgol Nant y Coed fel rhan o raglen genedlaethol arolygu ysgolion. Diben arolygu yw nodi nodweddion da a diffygion mewn ysgolion er mwyn iddynt allu gwella ansawdd yr addysg a gynigir a gwella'r safonau a gyflawnir gan eu disgyblion. Bwriedir i arolygu pob ysgol o fewn cylch chwe blynedd hefyd roi mwy o wybodaeth i rieni am berfformiad ysgol eu plentyn.

Cynhaliwyd yr arolygiad o Ysgol Nant y Coed rhwng 6/02/07 a 8/02/07 gan dîm annibynnol o arolygwyr, wedi'u harwain gan Dorothy Morris. Comisiynwyd yr arolygiad gan Estyn, sef corff statudol sy'n annibynnol ar, ond a ariennir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Roedd yn ofynnol i'r tîm adrodd ar y safonau a gyflawnir gan ddisgyblion, ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol, ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth a'r cyfraniad a wneir gan yr ysgol at ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol ei disgyblion.

Mae'r raddfa pum pwynt a ddefnyddir i gynrychioli'r holl farnau arolygu yn yr adroddiad hwn fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| **Gradd 1** | da gyda nodweddion rhagorol |
| **Gradd 2** | nodweddion da a dim diffygion pwysig |
| **Gradd 3** | nodweddion da'n gorbwyso diffygion |
| **Gradd 4** | rhai nodweddion da, ond diffygion mewn meysydd pwysig |
| **Gradd 5** | llawer o ddiffygion pwysig |

Mae tri math o arolygiad.

Ar gyfer **pob** arolygiad, ceir adroddiad ysgrifenedig ar saith cwestiwn allweddol.

Ar gyfer arolygiadau **byr**, ni cheir unrhyw adroddiadau pwnc.

Ar gyfer arolygiadau **safonol**, ceir adroddiadau ar chwe phwnc hefyd.

Ar gyfer arolygiadau **llawn**, ceir adroddiadau ar bob pwnc hefyd.

**Estyn sy'n penderfynu pa fath o arolygiad y bydd ysgol yn ei gael, yn bennaf ar sail ei pherfformiad yn y gorffennol. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn cael arolygiad safonol. Mae pob ysgol feithrin, ysgol arbennig, unedau cyfeirio disgyblion ac unrhyw ysgol newydd neu ysgol sydd wedi uno yn cael arolygiad llawn.**

Cafodd yr ysgol hon arolygiad **safonol.**

Adroddiad gan Miss D Morris
Ysgol Nant y Coed – 06/02/07

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (D) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Sector cynradd:

| Blwyddyn | D | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Sector uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cwricwlwm Cenedlaethol yn ymdrin â phedwar cyfnod allweddol fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Cyfnod allweddol 1 | Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

| Cynnwys | Tudalen |
|---|---|


| | |
|---|---|
| **Cyd-destun** | **1** |
| **Crynodeb** | **2** |
| **Argymhellion** | **6** |
| **Safonau** | **7** |
| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni? | **7** |
| **Ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant** | **10** |
| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu? | **10** |
| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach? | **12** |
| Cwestiwn Allweddol 4: Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr? | **14** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | |
| Cwestiwn Allweddol 5: Pa mor effeithiol yw arweinyddiaeth a rheolaeth strategol? | **16** |
| Cwestiwn Allweddol 6: Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau? | **17** |
| Cwestiwn Allweddol 7: Pa mor effeithlon y mae'r arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau? | **18** |
| **Safonau a gyflawnir mewn pynciau a meysydd dysgu** | **20** |
| Saesneg<br>Mathemateg<br>Dylunio a thechnoleg<br>Celf<br>Addysg gorfforol<br>Addysg grefyddol | **20**<br>**21**<br>**22**<br>**23**<br>**24**<br>**24** |
| **Ymateb yr ysgol i'r arolygiad** | **26** |
| **Atodiadau** | |
| 1 Gwybodaeth sylfaenol am yr ysgol | **27** |
| 2 Data a dangosyddion ysgol | **27** |
| 3 Canlyniadau asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol | **28** |
| 4 Sail dystiolaeth yr arolygiad | **29** |
| 5 Cyfansoddiad a chyfrifoldebau'r tîm arolygu | **30** |

# Cyd-destun

## Natur y darparwr

1. Lleolir Ysgol Nant y Coed yn nhref fechan Cyffordd Llandudno, sir Conwy. Mae 191.5 o ddisgyblion (cyfwerth ag amser llawn), rhwng 3 -11 oed, ar y gofrestr. Derbynia'r ysgol ddisgyblion i'r dosbarth meithrin ym mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn dair oed. Mae'r niferoedd disgyblion wedi bod yn gymharol sefydlog dros y blynyddoedd diwethaf.

2. Nid yw'r ysgol yn barnu bod y dalgylch naturiol yn ffyniannus nac yn dioddef anfanteision economaidd. Mae gan 16% o'r disgyblion hawl i dderbyn prydau ysgol yn rhad ac am ddim; mae'r ffigur hwn yn debyg i'r cyfartaledd sirol ond yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol.

3. Derbynnir disgyblion o'r ystod gallu llawn. Mae 39 (20%) ohonynt wedi eu harenwi gan yr ysgol fel rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), gan gynnwys pump disgybl â datganiad o'u hanghenion addysgol arbennig. Mae'r canran hwn yn uwch na'r canran cenedlaethol. Darperir cymorth ychwanegol i'r disgyblion ag ADY mewn sesiynau tynnu allan dyddiol gyda'r athrawes ADY.

4. Saesneg yw prif gyfrwng gwaith a bywyd yr ysgol ac hefyd y brif iaith a siaredir yng nghartrefi'r disgyblion. Dysgir Cymraeg fel ail iaith yn yr ysgol. Mae nifer fach o fewnlifiad plant o wledydd tramor yn digwydd yn achlysurol.

5. Mae'r ysgol wedi derbyn achrediad 'Marc Safon yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol' ac mae wedi llwyddo i achredu fel ysgol 'Buddsoddwyr mewn Pobl'.

6. Apwyntiwyd y pennaeth presennol i'w swydd ym mis Medi, 1999. Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Mehefin, 2001.

## Blaenoriaethau a thargedau'r ysgol

7. Mae amcanion yr ysgol yn cynnwys:
- sefydlu awyrgylch hapus a gweithgar sy'n galluogi'r disgyblion i feithrin agweddau cadarnhaol at ddysgu;
- sicrhau bod pob disgybl yn cael cyfle cyfartal trwy ddarparu cwricwlwm eang a chytbwys;
- cynorthwyo'r disgyblion i ddatblygu'n unigolion hyderus, yn ymwybodol o les eraill, ac yn aelod cyfrifol o'r gymdeithas.

8. Mae prif flaenoriaethau a thargedau'r ysgol ar gyfer 2006-2007 yn cynnwys:
- datblygu'r strwythur ar gyfer asesu holl bynciau'r Cwricwlwm Cenedlaethol (CC);
- datblygu'r cynllun gwaith Cymraeg;
- gwella'r ddarpariaeth ar gyfer technoleg gwybodaeth;
- datblygu'r gweithdrefnau hunan arfarnu.

## Crynodeb

9. Mae'r ysgol hon yn llwyddo yn ei hamcanion wrth greu amgylchedd cefnogol a gofalgar. Cydweithia holl staff yr ysgol yn effeithiol i greu amgylchfyd disgybledig lle caiff y disgyblion brofiadau da sy'n hyrwyddo eu dysgu a'u datblygiad. Mae'r ysgol wedi cynnal y safonau da ers yr arolygiad diwethaf ym mwyafrif helaeth y pynciau a arolygwyd ac mae ymrwymiad cryf ymhlith holl bartneriaid yr ysgol i sicrhau gwelliant pellach. Mae'r ysgol yn cynnig gwerth da am arian.

10. Mae'r adroddiad hunan arfarnu, a luniwyd gan y pennaeth, y Corff Llywodraethol a'r athrawon cyn yr arolygiad, yn glir ac yn ddealladwy. Cytunodd y tîm arolygu â'r barnau a wnaed gan yr ysgol mewn pump o'r saith cwestiwn allweddol. Dyfarnwyd gradd yn is i'r cwestiynau eraill gan fod rhai agweddau, ym marn yr arolygwyr, angen sylw pellach.

**Tabl o'r graddau a ddyfarnwyd**

| Cwestiwn allweddol | Gradd yr arolygiad |
|---|---|
| 1.Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni? | Gradd 3 |
| 2.Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu? | Gradd 2 |
| 3.Pa mor dda mae profiadau dysgu yn diwallu anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach? | Gradd 2 |
| 4.Pa mor dda yw'r gofal, yr arweiniad a'r cymorth i ddysgwyr? | Gradd 2 |
| 5.Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth strategol? | Gradd 2 |
| 6.Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau? | Gradd 3 |
| 7.Pa mor effeithlon mae arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau? | Gradd 2 |

11. Yn y gwersi a arolygwyd, mae safonau cyflawniad y disgyblion fel a ganlyn:

| Gradd 1 | Gradd 2 | Gradd 3 | Gradd 4 | Gradd 5 |
|---|---|---|---|---|
| 0% | 83% | 17% | 0% | 0% |

12. Mae safonau cyflawniad y disgyblion yn uwch na thargedau Llywodraeth Cynulliad Cymru (LLCC), sef y dylai 98% o'r gwersi fod yn foddhaol (Gradd 3) neu'n well erbyn 2007, a 65% yn dda (Gradd 2) neu'n well.

**Y blynyddoedd cynnar**

13. Mae ansawdd cyffredinol y ddarpariaeth addysgol ar gyfer y plant dan bump oed yn briodol i'w hanghenion a gwnânt gynnydd da tuag at y Canlyniadau Dymunol ar gyfer Dysgu Plant.

## Graddau ar gyfer safonau mewn pynciau a arolygwyd

14. Yng nghyfnod allweddol 1 (CA1) a chyfnod allweddol 2 (CA2), mae safonau cyflawniad y disgyblion yn y pynciau a arolygwyd fel a ganlyn:

| Pwnc | Cyfnod Allweddol 1 | Cyfnod Allweddol 2 |
|---|---|---|
| Saesneg | Gradd 2 | Gradd 2 |
| Mathemateg | Gradd 3 | Gradd 3 |
| Dylunio a thechnoleg | Gradd 2 | Gradd 2 |
| Celf | Gradd 2 | Gradd 2 |
| Addysg Gorfforol | Gradd 2 | Gradd 2 |
| Addysg Grefyddol | Gradd 2 | Gradd 2 |

15. Yn y pynciau a arolygwyd, gwna'r disgyblion gynnydd da wrth ennill medrau, dealltwriaeth a gwybodaeth newydd a chyflawnant y nodau dysgu cytunedig.

16. Mae'r disgyblion ag ADY yn gwneud cynnydd da yn addysgol ac yn gymdeithasol. Cyflawnant y targedau a osodir ar eu cyfer.

17. Dros y blynyddoedd, mae canlyniadau gwaelodlin ar gyfer y plant dan bump yn dangos bod ystod eu gallu pan ddechreuant yr ysgol yn eang. Mae'r safonau a'r cynnydd yn eu medrau gwrando, siarad, darllen, ysgrifennu, rhifedd a defnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn dda. Mae datblygiad eu medrau addysg bersonol a chymdeithasol a'u medrau creadigol hefyd yn dda.

18. Yn y ddau gyfnod allweddol, mae nodweddion da yn gorbwyso diffygion yn safonau a chynnydd disgyblion ym medrau allweddol llythrennedd, rhifedd a TGCh. At ei gilydd, mae medrau gwrando, siarad, darllen ac ysgrifennu Saesneg y disgyblion ar draws y cwricwlwm yn dda. Mewn lleiafrif bach o'r dosbarthiadau, gwna'r disgyblion ddefnydd da o'u medrau rhifedd a TGCh ar draws y pynciau. Yn gyffredinol, nid yw'r disgyblion yn datblygu ac yn gwella'r medrau hyn yn gyson ar draws y cwricwlwm.

19. Mae hyfedredd dwyieithog y disgyblion yn dangos cynnydd da. Mae disgyblion o bob oed yn cyfathrebu gyda chywirdeb a dealltwriaeth yn Saesneg. Cyfathrebant gyda hyder a rhuglder cynyddol yn Gymraeg.

20. Yn asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol (CC) yn 2006, mae cyraeddiadau disgyblion CA1, yn ôl asesiad athro, yn is na'r canlyniadau sirol a chenedlaethol yn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth. Mae canlyniadau'r ysgol, at ei gilydd, hefyd yn is na'r canrannau cenedlaethol a sirol. O gymharu ag ysgolion eraill tebyg yng Nghymru, ar sail prydau bwyd am ddim, mae canlyniadau'r ysgol, at ei gilydd, yn gosod yr ysgol yn y 25% isaf.

21. Yn asesiadau'r CC yn 2006, mae cyraeddiadau disgyblion CA2, yn ôl asesiad athro, yn uwch na'r canlyniadau sirol a chenedlaethol yn Saesneg a gwyddoniaeth. Maent yn is mewn mathemateg. Mae canlyniadau'r ysgol, at ei gilydd, hefyd yn uwch na'r canran cenedlaethol. O gymharu ag ysgolion eraill tebyg yng Nghymru, ar sail prydau bwyd am ddim, mae canlyniadau'r ysgol, at ei gilydd, yn gosod yr ysgol yn y 50% isaf. Mae'r tueddiadau o ran cyrhaeddiad y disgyblion yn dangos gwelliant parhaus yn arbennig yn Saesneg a gwyddoniaeth.

22. Mae mwyafrif helaeth y disgyblion yn dangos cymhelliant da ac yn gwneud cynnydd priodol tuag at gyrraedd eu potensial.

23. Mae'r disgyblion yn cydweithio'n effeithiol ac fe ddangosant ddatblygiad arbennig yn eu medrau personol a chymdeithasol.

24. Dengys disgyblion ddatblygiad da yn eu medrau creadigol ar draws yr ysgol. Mae medrau ymchwilio a datrys problemau plant dan bump oed yn dda. Yn CA1 a CA2, mae medrau'r disgyblion yn datblygu'n effeithiol yn arbennig mewn pynciau megis gwyddoniaeth a dylunio a thechnoleg.

25. Mae gan y plant dan bump oed a'r disgyblion ag ADY dargedau personol i ymgyrraedd atynt. Nid oes gan y disgyblion eraill dargedau personol. Er hyn, mae gan y disgyblion, yn arbennig y disgyblion hynaf, ymwybyddiaeth sicr o'u cryfderau a'u gwendidau a'r hyn mae'n rhaid iddynt ei wneud i gyflawni safonau uwch.

26. Mae agweddau'r disgyblion at eu dysgu, y diddordeb a ddangosant yn eu gwaith a'u gallu i ganolbwyntio, yn dda. Maent yn gweithio'n galed mewn gwersi, yn barod i ymuno yn y gweithgareddau a ddarperir ac yn dangos brwdfrydedd tuag at eu gwaith.

27. Mae ymddygiad y disgyblion yn rhagorol. Mae ganddynt ddealltwriaeth eglur o'r hyn a ddisgwylir oddi wrthynt ac maent yn ystyriol a chwrtais.

28. Ar gyfer y tri thymor cyn yr arolygiad, 93% oedd canran y presenoldeb ar gyfartaledd. Mae'r ffigur hwn yn brin o darged yr ysgol. Daw'r disgyblion i'r ysgol yn brydlon ac mae amserlen y dydd yn rhedeg yn esmwyth. Mae'r gweithdrefnau cofnodi presenoldeb yn cwrdd â'r gofynion statudol.

29. Mae gan y disgyblion wybodaeth dda am fywyd cymunedol eu hardal a chyfrannant i lawer o achlysuron lleol. Trwy ymweliadau a chyfraniadau ymwelwyr a ddaw i'r ysgol, mae gan y disgyblion ymwybyddiaeth gyffredinol am fyd gwaith yn eu hardal. Nid yw eu medrau menter wedi datblygu'n ddigonol.

**Ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant**

30. Yn y gwersi a arsylwyd, roedd ansawdd yr addysgu fel a ganlyn:

| Gradd 1 | Gradd 2 | Gradd 3 | Gradd 4 | Gradd 5 |
|---|---|---|---|---|
| 12% | 66% | 22% | 0% | 0% |

31. Mae nodweddion da a rhagorol yr addysgu yn cynnwys disgwyliadau uchel o'r holl ddisgyblion ar draws y cwricwlwm, cyflwyniadau ysgogus, esboniadau clir a chydadweithio effeithiol rhwng athro a disgybl. Yn yr addysgu lle mae diffygion, nid yw'r tasgau bob amser yn cyfateb yn ddigonol â'r ystod eang o anghenion dysgu yn y dosbarth. Ar adegau, mae diffyg cyflymder yn yr addysgu a'r dysgu.

32. Mae nodweddion da y gweithdrefnau asesu yn gorbwyso'r diffygion. Mae gan yr ysgol ystod eang o weithdrefnau asesu a chofnodi cynnydd y disgyblion. Er hyn, ni wneir defnydd cyson o'r wybodaeth a gesglir wrth gynllunio addysgu a dysgu i'r dyfodol. Mae'r adroddiad blynyddol i rieni yn cydymffurfio â'r gofynion statudol.

33. Mae'r ysgol yn ymateb yn dda i anghenion dysgu'r disgyblion ac fe gânt oll gyfleoedd cyfartal i fanteisio ar gwricwlwm eang. Mae'r athrawon yn ymwybodol o'r angen i sicrhau bod pob disgybl yn ennill hyfedredd yn y medrau allweddol a sylfaenol. Fodd bynnag, nid yw'r cynllunio'n ddigon strwythuredig i sicrhau bod medrau allweddol y disgyblion yn cael eu datblygu a'u hymestyn yn gyson drwy'r ysgol.

34. Llwydda'r profiadau dysgu i feithrin datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn effeithiol. Mae eu hymwybyddiaeth o gyfleoedd cyfartal yn dda.

35. Mae'r partneriaethau gyda rhieni a'r gymuned yn dda. Daw nifer o oedolion o'r gymuned i wrando ar ddisgyblion yn darllen, gan feithrin hyder a medrau'r disgyblion perthnasol yn effeithiol iawn. Mae'r partneriaethau gydag ysgolion ac asiantaethau eraill hefyd yn dda.

36. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag ADY yn dda ac fe gyflawna ofynion y Côd Ymarfer.

37. Rhoddir sylw da i sicrhau lles disgyblion. Lluniwyd polisi effeithiol a gweithdrefnau clir ar gyfer amddiffyn plant. Mae gan yr ysgol bolisi iechyd a diogelwch priodol sydd yn cynnig canllawiau clir i'r staff.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth**

38. Caiff yr ysgol ei harwain a'i rheoli'n effeithiol gan bennaeth profiadol. Mae ei werthoedd cadarn yn hysbys i'r staff, llywodraethwyr a'r rhieni ac fe'u hadlewyrchir yn amlwg yng ngwaith yr ysgol. Cydweithia'r holl aelodau staff yn dda a cheir ymdeimlad cryf o gefnogaeth y naill at y llall er mwyn hybu datblygiad ac addysg y disgyblion.

39. Mae'r cynllun datblygu ysgol (CDY) yn gosod nodau a thargedau realistig sy'n seiliedig ar anghenion yr ysgol. Caiff y gyllideb ei rheoli'n ofalus ac fe gysylltir gwariant yn agos â thargedau'r ysgol. Gwna'r ysgol gynnydd da tuag at gyflawni ei phrif flaenoriaethau.

40. Mae'r pennaeth, y staff a'r llywodraethwyr yn ymrwymedig i wella safonau ac fe gynhyrchwyd rhaglen fonitro ddefnyddiol. Fodd bynnag, nid yw'r gweithdrefnau hunan arfarnu, gan gynnwys rôl y cydlynwyr pwnc, wedi eu hymestyn yn ddigonol.

41. Mae'r Corff Llywodraethol yn gefnogol iawn, yn wybodus ac yn cyfrannu'n llawn i fywyd a gwaith yr ysgol. Mae'r aelodau yn cyfrannu'n dda at gynllunio strategol ac yn datblygu eu rôl o fonitro ansawdd y ddarpariaeth a safonau datblygiad y disgyblion yn effeithiol. Rhoddir sylw priodol i ofynion statudol yn nogfennaeth yr ysgol.

42. Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd da ers yr arolygiad diwethaf ac wedi cyflawni mwyafrif helaeth y materion allweddol yn llwyddiannus.

43. Er bod rhannau o'r ysgol wedi eu cynnal a'u cadw'n briodol, mae rhannau eraill yn fregus, gyda phaneli pren yn pydru a thoeau'n gollwng. Bu'r llywodraethwyr yn pwyso ar yr Awdurdod Addysg Lleol (AALl) i ddelio â'r diffygion hyn. Cafwyd addewid i'w cywiro dros gyfnod o bum mlynedd.

44. Mae nifer dda o athrawon a staff cynnal i ymgymryd â gwaith yr ysgol. Mae adnoddau digonol ac o ansawdd da ar gyfer pob pwnc a chânt eu defnyddio'n effeithiol. Mae'r pennaeth a'r Corff Llywodraethol yn adolygu anghenion adnoddau yn rheolaidd, gan sicrhau gwerth da am arian.

## Argymhellion

Mae angen i'r ysgol:

R1. barhau i wella safonau cyflawniad mewn mathemateg yn y ddau gyfnod allweddol;

R2. lledaenu nodweddion da yr addysgu, y dysgu a'r asesu ar draws yr ysgol;

R3. darparu cyfleoedd cyson i'r disgyblion ddatblygu ac ymestyn eu medrau allweddol ar draws y cwricwlwm;

R4. datblygu'r gweithdrefnau hunan arfarnu, gan gynnwys rôl yr arweinyddion cwricwlwm yn y broses.

Mae'r corff llywodraethol yn gyfrifol am ddiwygio'i gynllun datblygu cyfredol i ymgorffori camau i ymateb i'r argymhellion ymhen 45 diwrnod gwaith o dderbyn yr adroddiad, gan ddangos yr hyn y mae'r ysgol am ei wneud ynglŷn â'r argymhellion. Bydd y cynllun hwn, neu grynodeb ohono, yn cael ei ddosbarthu i bob rhiant yn yr ysgol.

## Safonau

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?**

**Gradd 3: Nodweddion da yn gorbwyso diffygion**

45. Nid yw canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â barn Gradd 2 yr ysgol yn ei hadroddiad hunan arfarnu. Er bod nodweddion da a rhagorol yn natblygiad medrau personol a chymdeithasol y disgyblion, anwastad yw agweddau ar ddatblygiad medrau allweddol a safonau cyrhaeddiad y disgyblion.

46. Yn y gwersi a arolygwyd, mae safonau cyflawniad y disgyblion fel a ganlyn:

| Safonau cyflawniad y disgyblion | Gradd 1 | Gradd 2 | Gradd 3 | Gradd 4 | Gradd 5 |
|---|---|---|---|---|---|
| | 0% | 83% | 17% | 0% | 0% |

47. Mae'r ysgol yn cyflawni targedau LICC ar gyfer 2007 bod safonau cyflawniad o leiaf yn foddhaol (gradd 3 Estyn) yn 98% o ddosbarthiadau a arolygwyd. Mae hefyd yn cyflawni'r targed bod safonau cyflawniad yn dda neu'n dda iawn (gradd 1 a 2 Estyn) yn 65% o ddosbarthiadau a arolygwyd.

**Y blynyddoedd cynnar**

48. Mae ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer plant dan bump yn briodol i'w hanghenion a gwna'r plant gynnydd da tuag at y Canlyniadau Dymunol ar gyfer Dysgu Plant.

**Graddau ar gyfer safonau mewn pynciau a arolygwyd**

49. Yn CA1 a CA2, mae safonau cyflawniad yn y pynciau a arolygwyd fel a ganlyn:

| Pwnc | CA 1 | CA 2 |
|---|---|---|
| Saesneg | Gradd 2 | Gradd 2 |
| Mathemateg | Gradd 3 | Gradd 3 |
| Dylunio a thechnoleg | Gradd 2 | Gradd 2 |
| Celf | Gradd 2 | Gradd 2 |
| Addysg Grefyddol | Gradd 2 | Gradd 2 |
| Addysg Gorfforol | Gradd 2 | Gradd 2 |

50. Yn y pynciau a'r meysydd dysgu a arolygwyd, cyflawna'r disgyblion safonau da yn eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth. Gwnânt gynnydd priodol wrth ymgyrraedd at eu potensial, a chyflawnant y nodau dysgu cytunedig. Gwna'r disgyblion gydag ADY gynnydd da yn unol â'u targedau.

51. Dros y blynyddoedd, mae canlyniadau gwaelodlin ar gyfer y plant dan bump yn dangos bod ystod eu gallu pan ddechreuant yr ysgol yn eang. Mae safonau a chynnydd y plant yn y medrau gwrando, siarad, darllen, ysgrifennu, rhifedd a defnyddio TGCh yn dda. Mae eu medrau addysg bersonol a chymdeithasol a'u medrau creadigol hefyd yn dda.

52. Yn CA1 a CA2, mae nodweddion da yn gorbwyso diffygion yn natblygiad medrau allweddol llythrennedd Saesneg, rhifedd a TGCh y disgyblion ar draws y cwricwlwm. Ar ei gilydd, mae medrau siarad a gwrando'r disgyblion yn dda.

Gwrandawant yn ofalus ar oedolion a chyfraniadau disgyblion eraill. Mae'r mwyafrif helaeth o'r disgyblion yn siarad yn glir ac yn hyderus ac mae'r disgyblion mwy galluog yn defnyddio geirfa estynedig gyda dealltwriaeth. Yn ôl eu hoed a'u cyfnod datblygiad, defnyddia disgyblion eu medrau darllen yn effeithiol ar draws y pynciau. Ysgrifenna'r disgyblion ar gyfer gwahanol ddibenion ac mae ansawdd eu hysgrifennu yn dda.

53. Mewn lleiafrif bach o'r dosbarthiadau, cyflawna'r disgyblion safonau da wrth iddynt ddefnyddio eu medrau rhif a'u medrau TGCh mewn tasgau ar draws y cwricwlwm. Er hyn, nid yw'r disgyblion yn gyffredinol yn datblygu ac ymestyn y medrau hyn yn ddigon cyson.

54. Yn asesiadau'r CC yn 2006, mae cyraeddiadau disgyblion CA1, yn ôl asesiad athro, mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth yn is na'r cyfartaleddau sirol a chenedlaethol. O gymharu ag ysgolion tebyg ar draws Cymru, ar sail prydau ysgol am ddim, mae cyraeddiadau'r disgyblion yn y 25% isaf ym mhob pwnc. Mae'r cyfran o ddisgyblion sydd yn cyrraedd y lefel uwch, sef lefel 3, yn y pynciau craidd yn is na'r cyfartaleddau cenedlaethol yn Saesneg a mathemateg ac yn gyfatebol yng ngwyddoniaeth. Nid oes gwahaniaethau arwyddocaol ym mherfformiad y bechgyn a'r merched. O gymharu â chanlyniadau mewn ysgolion tebyg ledled Cymru, ar sail cinio am ddim, mae canlyniadau'r ysgol ar gyfartaledd dros y tair blynedd diweddaf yn gosod yr ysgol yn y 25% isaf.

55. Yn asesiadau'r CC yn 2006, mae cyraeddiadau disgyblion CA2, yn ôl asesiad athro, yn uwch na'r cyfartaleddau sirol a chenedlaethol mewn Saesneg a gwyddoniaeth ond maent yn is mewn mathemateg. Mae gwelliant amlwg yng nghyraeddiadau Saesneg a gwyddoniaeth y disgyblion. Nid oes gwahaniaethau arwyddocaol ym mherfformiad y bechgyn a'r merched. O gymharu ag ysgolion tebyg ar draws Cymru, ar sail prydau ysgol am ddim, mae cyraeddiadau'r disgyblion yn y 25% uchaf yn Saesneg, yn y 50% uchaf yng ngwyddoniaeth, ychydig yn is na'r 25% uchaf, ac maent yn y 50% isaf ym mathemateg. Mae'r cyfran o ddisgyblion sydd yn cyrraedd y lefel uwch, sef lefel 5, yn y pynciau yn is na'r cyfartaleddau cenedlaethol.

56. O gymharu â chanlyniadau mewn ysgolion tebyg ledled Cymru, ar sail cinio am ddim, mae canlyniadau'r ysgol ar gyfartaledd dros y tair blynedd diwethaf, yn gosod yr ysgol yn y 50% isaf. Mae'r tueddiadau o ran cyrhaeddiad y disgyblion yn dangos gwelliant parhaus yn arbennig yn Saesneg a gwyddoniaeth.

57. Yn y Blynyddoedd Cynnar, mae medrau ymchwilio a datrys problemau'r plant yn dda. Yn CA1 a CA2, mae medrau'r disgyblion yn datblygu'n effeithiol mewn pynciau megis gwyddoniaeth, a dylunio a thechnoleg. Dengys disgyblion ddatblygiad da yn eu medrau creadigol ar draws yr ysgol.

58. Mae cymhwysedd dwyieithrwydd y disgyblion yn datblygu'n dda. Mae disgyblion o bob oed yn cyfathrebu'n rhwydd yn Saesneg. Maent yn cyfathrebu gyda rhuglder a dealltwriaeth gynyddol yn Gymraeg.

59. Dengys y disgyblion ddatblygiad arbennig yn eu medrau personol a chymdeithasol ac yn eu gallu i gydweithio. Mae disgyblion o bob oed yn cydweithio'n effeithiol mewn parau, timau ac fel grwpiau.

60. Nodwedd amlwg a phleserus o fywyd yr ysgol yw agwedd gadarnhaol y disgyblion tuag at ddysgu, eu diddordeb yn eu gwaith a'u gallu i ganolbwyntio. Mae yma ethos gwaith ac mae'r disgyblion yn ymateb yn frwd yn y dosbarth.

61. Mae mwyafrif y disgyblion yn meithrin sgiliau priodol er mwyn gweithio'n annibynnol. Yn yr arfer gorau, mae'r disgyblion yn cymryd cyfrifoldeb am agweddau ar eu dysgu, gan drefnu eu gwaith eu hunain yn effeithiol. Mae'r plant dan bump oed, er enghraifft, yn datblygu'n ddysgwyr annibynnol, hyderus.

62. Mae gan y disgyblion ag ADY a phlant dan bump oed dargedau personol ar gyfer eu datblygiad pellach. Yn CA1 a CA2, nid oes gan y disgyblion dargedau personol i ymgyrraedd atynt. Er hyn, gall y disgyblion, yn arbennig y disgyblion hynaf, drafod y cryfderau a'r gwendidau arbennig yn eu gwaith, a gwyddant yr hyn sydd angen ei wneud nesaf er mwyn gwella ansawdd eu gwaith.

63. Mae datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn dda. Llwyddant yn dda i ddatblygu ymwybyddiaeth ysbrydol a moesol trwy arwain a chyfrannu at y sesiynau addoli ar y cyd. Dangosant gonsýrn ac empathi ag eraill yn ôl eu hoedran. Maent yn ymwybodol o bwysigrwydd tegwch, cyfiawnder cymdeithasol a chyfle cyfartal. Un ffordd yr amlygant hyn yw drwy gasglu symiau sylweddol o arian at achosion da. Gwelir cynnydd da yn eu datblygiad diwylliannol wrth iddynt ymwneud â gweithgareddau'r Urdd ac wrth iddynt ddysgu am artistiaid ac enwogion Cymreig mewn pynciau megis celf, cerdd a hanes.

64. Mae'r disgyblion yn gyfarwydd â thraddodiadau a diwylliannau gwahanol. Maent yn ymweld â synagog fel rhan o'u haddysg grefyddol. Datblygwyd adnabyddiaeth disgyblion hynaf yr ysgol o wledydd tramor yn effeithiol drwy gymryd rhan yng Nghynllun Comenius yr Undeb Ewropeaidd.

65. Trwy eu hastudiaethau ar draws y cwricwlwm, mae gan y disgyblion ymwybyddiaeth dda o faterion cadwriaethol ac o gynaladwyedd.

66. Caiff y disgyblion amrywiaeth o gyfrifoldebau ym mywyd yr ysgol, megis cynnal y gwasanaeth boreol, helpu yn y dosbarth a chasglu sbwriel. Gwnaeth y cyngor ysgol awgrymiadau gwerthfawr sy'n cael eu gweithredu gan yr ysgol. Mae aelodaeth o'r cyngor ysgol yn galluogi'r disgyblion i feithrin medrau cymdeithasol gwerthfawr ac yn hybu eu gwybodaeth o ddinasyddiaeth.

67. Mae ymddygiad y disgyblion yn rhagorol. Maent yn gwrtais gyda staff a chroesawgar wrth ymwelwyr. Mae disgyblion o bob oed yn cyd-chwarae'n hapus. Maent yn symud yn drefnus o'r naill weithgaredd i'r llall ac yn deall a pharchu disgwyliadau uchel yr ysgol.

68. 93% oedd cyfartaledd presenoldeb ysgol gyfan am y tri thymor cyn yr arolygiad. Mae hyn yn ostyngiad o tua 2% o gymharu â chanrannau'r tair blynedd

blaenorol ac yn brin o darged yr ysgol. Mae nifer arwyddocaol o ddisgyblion yn absennol heb awdurdod. Buasai presenoldeb yn uwch oni bai fod nifer o rieni yn mynd â'u plant ar wyliau yn ystod y tymor. Yn ôl ystadegau diweddaraf LICC, mae absenoldeb yn uwch nag ysgolion yn yr un grŵp cinio ysgol am ddim, ac yn uwch na'r canrannau sirol a chenedlaethol. Mae'r ysgol yn ymwybodol o hyn ac yn cymryd camau addas, megis cyfathrebu cyson gyda'r cartref a chyda swyddog lles addysg sirol, i sicrhau gwelliant.

69. Daw disgyblion yn brydlon i'r ysgol. Mae'r ysgol yn monitro a chofnodi presenoldeb y disgyblion yn ofalus iawn ac yn unol â chylchlythyr 3/99 LICC.

70. Mae gan y disgyblion wybodaeth dda am fywyd cymunedol eu hardal a chyfrannant i lawer o achlysuron lleol. Mae cysylltiadau ac ymweliadau niferus â'r gymuned leol yn datblygu adnabyddiaeth y disgyblion o hanes, diwylliant ac amgylchedd yr ardal yn effeithiol. Trwy ymweliadau a chyfraniadau ymwelwyr a ddaw i'r ysgol, megis aelodau o'r heddlu, mae gan y disgyblion wybodaeth gyffredinol am fyd gwaith yn eu hardal. Nid ydynt yn datblygu medrau menter addas yn ddigonol.

## Ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant

### Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu?

### Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

71. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â dyfarniad Gradd 2 yr ysgol yn ei hadroddiad hunan arfarnu.

72. Yn y gwersi a arolygwyd, roedd ansawdd yr addysgu fel a ganlyn:

| Gradd 1 | Gradd 2 | Gradd 3 | Gradd 4 | Gradd 5 |
|---|---|---|---|---|
| 12% | 66% | 22% | 0% | 0% |

73. Mae'r athrawon a holl staff yr ysgol yn trin y disgyblion yn gyfartal, gwaeth beth fo eu hoed, cenedl, hil neu allu. Mae'r berthynas dda rhwng yr athrawon a'r disgyblion yn hyrwyddo dysgu effeithiol. Creant ethos gwaith cadarnhaol yn eu dosbarthiadau.

74. Mae gan yr athrawon wybodaeth dda o bynciau'r CC, addysg grefyddol ac o'r Canlyniadau Dymunol ar gyfer Dysgu Plant. Adlewyrchir hyn yn y gwaith cynllunio a pharatoi ar gyfer gwersi. Defnyddia'r athrawon ystod o ddulliau addysgu ac adnoddau pwrpasol sy'n cydweddu â'r gweithgareddau.

75. Caiff cymhwysedd dwyieithrwydd y disgyblion ei feithrin yn effeithiol. Manteisir ar bob cyfle i ddatblygu geirfa Gymraeg y disgyblion yn achlysurol yn ystod y dydd. Datblygir y dimensiwn Cymreig yn llwyddiannus o fewn nifer dda o bynciau megis celf, hanes a daearyddiaeth.

76. Roedd y nodweddion rhagorol i'r addysgu a arsylwyd yn cynnwys:

- disgwyliadau uchel o'r holl ddisgyblion sy'n sicrhau tasgau heriol ac ymestynnol yn gyson;
- rhyngweithio rhagorol rhwng athro a disgybl sy'n galluogi'r disgyblion i archwilio materion mewn dyfnder cynyddol;
- gallu arbennig i blethu gwahanol agweddau o'r pynciau ar draws y cwricwlwm.

77. Roedd y nodweddion da i'r addysgu a arsylwyd yn cynnwys:

- gwersi ag iddynt nodau clir sy'n cael eu rhannu gyda'r disgyblion;
- addysgu uniongyrchol effeithiol a chwestiynu da;
- tasgau gwahaniaethol i bwrpas penodol;
- defnydd da o waith pâr a gwaith grŵp.

78. Mae'r diffygion mwyaf cyffredin yn yr addysgu yn cynnwys:

- diffyg cyflymder yn yr addysgu a'r dysgu;
- tasgau heb fod yn ddigon ymestynnol, yn bennaf i'r disgyblion mwy galluog;
- gorddefnydd o dasgau copïo;
- cyfleoedd anghyson i'r disgyblion ddatblygu ac ymestyn eu medrau allweddol.

79. Mae nodweddion da yn gorbwyso'r diffygion yn ansawdd yr asesu, cofnodi ac adrodd ar gynnydd y disgyblion. Mae gan yr ysgol ystod eang o weithdrefnau asesu a gwneir defnydd priodol ohonynt i ddadansoddi safonau cyflawniad y disgyblion. Er hyn, ni wneir defnydd cyson o'r wybodaeth a gesglir wrth gynllunio addysgu a dysgu i'r dyfodol.

80. Caiff y gofynion statudol ar gyfer asesu ac adrodd ar y CC eu bodloni. Gweithredir yr asesu sylfaen yn gywir ac ar sail hynny gosodir targedau addas i'r plant ar gyfer datblygiad pellach. Mae'r asesiadau ar gyfer disgyblion ag ADY yn dda. Mae'r ysgol wedi sefydlu dulliau priodol o adnabod eu hanghenion a darperir cynlluniau addysg unigol (CAU) effeithiol ar eu cyfer.

81. Yn y ddau gyfnod allweddol, asesir cynnydd y disgyblion yn y pynciau craidd yn rheolaidd. Gwneir defnydd cyson o brofion safonedig i fesur lefelau darllen, sillafu a rhif a chofnodir y canlyniadau yn fanwl er mwyn tracio cynnydd y disgyblion drwy'r ysgol. Dadansoddir canlyniadau profion ac asesiadau'r athrawon yn briodol. Er hyn, mae'r ysgol yn ymwybodol o'r angen i ddatblygu'r agwedd hon ymhellach, yn arbennig dulliau asesu ar y cyd, gan gynnwys marcio.

82. Yn y blynyddoedd cynnar a CA1, defnyddir canllawiau sirol yn effeithiol i gofnodi cynnydd y disgyblion. Yn ddiweddar, cychwynnwyd ar drefn mwy ffurfiol yn CA2, er mwyn cael darlun mwy eglur o gynnydd y disgyblion ar draws y cwricwlwm. Mae portffolios pynciol ar y gweill sydd yn rhoi enghreifftiau defnyddiol i athrawon o waith wedi'i asesu er mwyn dangos y lefelau y dylid eu cyflawni. Mae hwn yn ddatblygiad da.

83. Mae gan y disgyblion ymwybyddiaeth gyffredinol o'u cryfderau a'u gwendidau a'r hyn sydd angen ei wneud i wella safonau eu gwaith. Er hyn, nid yw'r disgyblion yn gyffredinol yn ymwneud yn ddigonol â'r broses o osod targedau personol a'u hadolygu.

84. Caiff gwaith disgyblion ei farcio'n rheolaidd ac yn aml gyda'r disgybl. Yn yr arfer gorau, mae sylwadau ysgrifenedig yr athrawon yn cynorthwyo'r disgyblion i wella safonau eu gwaith yn effeithiol. Ar adegau, mae'r marcio yn annigonol, ac anghyson yw'r sylwadau er mwyn cynorthwyo'r disgyblion.

85. Mae'r adroddiad blynyddol i rieni yn cydymffurfio â'r gofynion statudol. Nodant gyflawniadau a medrau'r disgyblion ym mhob pwnc, a nodir agweddau ar gyfer gwelliant. Er hyn, nid yw'r sylwadau ysgrifenedig bob amser yn ddigon eglur er mwyn amlinellu'r ffyrdd y gall ddisgyblion wella safonau eu gwaith. Mae'r rhieni yn gwerthfawrogi'r cyfarfodydd gyda staff i drafod cynnydd a datblygiad eu plant.

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda y mae'r profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?**

**Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig.**

86. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â dyfarniad Gradd 2 yr ysgol yn ei hadroddiad hunan arfarnu.

87. Mae'r ysgol yn ymateb yn dda i anghenion dysgu a diddordebau'r disgyblion, ac mae'n darparu mynediad cyfartal i gwricwlwm eang a chytbwys. Cydymffurfia'r cwricwlwm â gofynion y CC ac addysg grefyddol, a'r Canlyniadau Dymunol ar gyfer plant dan bump oed.

88. Mae polisïau a chynlluniau clir ar gyfer yr holl bynciau a'r meysydd dysgu. Yn yr arfer gorau, maent wedi'u strwythuro'n dda i gwrdd a gofynion yr ysgol.

89. Mae'r cynllunio tymor byr yn sicrhau gweithgareddau priodol i'r disgyblion. Yn y Blynyddoedd Cynnar ac yn ystod y sesiynau tynnu allan ar gyfer disgyblion ag ADY, mae'r ddarpariaeth yn cyd-fynd ag anghenion a datblygiad y disgyblion yn dda. Er hyn, yn y ddau gyfnod allweddol, nid yw'r ddarpariaeth bob amser yn cwrdd ag anghenion disgyblion o wahanol alluoedd yn ddigon cyson.

90. Mae'r athrawon yn ymwybodol o'r angen i sicrhau bod pob disgybl yn ennill hyfedredd yn y medrau allweddol a sylfaenol. Fodd bynnag, nid yw'r cynllunio'n ddigon strwythuredig i sicrhau bod medrau allweddol y disgyblion yn cael eu datblygu a'u hymestyn yn gyson drwy'r ysgol.

91. Mae'r ysgol yn trefnu cyfleoedd da ar gyfer dysgu y tu allan i'r ysgol sy'n ategu ac yn ymestyn y cwricwlwm. Mae'r rhain yn cynnwys ymweliadau â lleoedd o ddiddordeb addysgol, cyfraniad ymwelwyr â'r ysgol, clybiau, gwaith cartref a gweithgareddau addas eraill. Mae cangen yr ysgol o'r Urdd, er enghraifft, yn rhoi cyfle i'r aelodau berfformio a chystadlu mewn chwaraeon ac eisteddfodau, ac mae hynny'n cynyddu eu hyder fel perfformwyr cyhoeddus.

92. Cyfrennir yn arwyddocaol at ddatblygiad ysbrydol a moesol y disgyblion gan y sesiynau addoli ar y cyd fel ysgol gyfan. Gofelir bod y disgyblion yn dod i barchu gwerthoedd ac egwyddorion megis gwirionedd a chyfiawnder. Mae'r disgyblion yn barod iawn i ymgymryd â chyfrifoldebau yn yr ysgol a dangosant

barch at eu cyfoedion ac at oedolion. Datblyga'r disgyblion hynaf ofal am eu cyd-ddisgyblion drwy gymryd cyfrifoldeb dros blant iau ar fuarth yr ysgol ac ar ymweliadau.

93. Datblygir addysg bersonol a chymdeithasol (ABaCh) y disgyblion yn briodol drwy agweddau o'r cwricwlwm, amser cylch a thrwy wersi penodol sy'n canolbwyntio ar yr agwedd hon. Rhoddir sylw da i agweddau megis datblygu ymwybyddiaeth y disgyblion o bwysigrwydd cynorthwyo rhai sy'n llai ffodus na hwy. Cesglir arian tuag at achosion da yn rheolaidd. Trwy'r Cyngor Ysgol, darperir cyfleoedd da i'r disgyblion ddylanwadu ar faterion sy'n gysylltiedig â'u bywydau bob dydd yn ogystal â hybu eu dealltwriaeth o ddinasyddiaeth. Datblygir ymwybyddiaeth ryngwladol y disgyblion yn effeithiol drwy gysylltiadau sy'n hybu cydweithio a chyfeillgarwch rhwng plant mewn gwahanol wledydd.

94. Rhoddir sylw da i hyrwyddo medrau dwyieithog y disgyblion. Gwneir defnydd cyson o'r Gymraeg yng ngweithdrefnau dydd i ddydd yr ysgol ac mae'r disgyblion yn gwneud ymdrechion priodol i ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i'w gwersi. Rhoddir sylw da i'r Cwricwlwm Cymreig yng ngwaith yr ysgol. Astudir treftadaeth a diwylliant Cymru yn effeithiol drwy bynciau megis hanes, celf a cherddoriaeth, a thrwy weithgareddau allgyrsiol yn gysylltiedig â'r Urdd.

95. Mae'r ysgol yn gweithredu mewn ffordd gynaliadwy ac mae gan y disgyblion ymwybyddiaeth dda o agweddau perthnasol. Hyrwyddir hyn yn addas drwy bynciau, megis daearyddiaeth, gwersi AbaCh a gweithgareddau priodol ar draws y cwricwlwm.

96. Mae cysylltiadau da gyda'r rhieni, y gymuned, ysgolion a sefydliadau eraill. Mae rhieni'n canmol gwaith yr ysgol, er yr hoffai rhai dderbyn mwy o wybodaeth am yr hyn sy'n cael ei addysgu. Mae'r mwyafrif helaeth yn ei chael yn hawdd cysylltu â'r ysgol a chaiff y cytundebau cartref/ysgol eu cwblhau'n briodol. Mae'r Gymdeithas Rieni a Staff yn codi arian sylweddol a gaiff ei ddefnyddio i brynu adnoddau ychwanegol. Daw nifer o oedolion o'r gymuned i wrando ar ddisgyblion yn darllen, gan feithrin hyder a medrau'r disgyblion perthnasol yn effeithiol iawn.

97. Mae'r disgyblion yn setlo'n gyflym yn y dosbarth meithrin ac mae cysylltiadau pontio priodol, yn academaidd a chwricwlaidd â'r ysgol uwchradd y trosglwydda mwyafrif y disgyblion iddi ar ddiwedd Blwyddyn 6 (B6). Daw myfyrwyr o golegau hyfforddi athrawon, colegau addysg bellach ac ysgolion uwchradd am gyfnodau buddiol o brofiad gwaith. Mae cydweithio agos gyda swyddogion addysg y cyngor sir.

98. Er bod gwybodaeth y disgyblion am fyd gwaith yn cael ei ddatblygu drwy ymweliadau a gweithgareddau addas, nid oes strategaeth ysgol gyfan i sicrhau defnydd cyson o fyd gwaith a busnes i gyfoethogi'r cwricwlwm. Nid yw medrau menter y disgyblion wedi eu datblygu'n ddigonol.

**Cwestiwn Allweddol 4: Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr?**

**Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig**

99. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â dyfarniad Gradd 2 yr ysgol yn ei hadroddiad hunan arfarnu.

100. Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar lle mae'r disgyblion yn teimlo y cânt gefnogaeth a gofal. Mae perthynas dda rhwng disgyblion â'i gilydd a rhyngddynt a'u hathrawon ac oedolion eraill. Mae'r ysgol yn cynnal ac arwain dysgwyr yn effeithiol, gan ystyried eu cefndir cymdeithasol, addysgol, ethnig a ieithyddol.

101. Mae disgyblion ieuengaf yr ysgol yn ymgartrefu'n gyflym ac yn trosglwyddo'n rhwydd o'r dosbarth meithrin i'r dosbarth derbyn. Teimlant yn ddiogel ac yn gartrefol yn yr ysgol a chânt gefnogaeth dda gan yr athrawon a'r cymorthyddion.

102. Cydweithia'r ysgol yn dda gyda rhieni, gofalwyr a gwasanaethau cefnogol yr AALl mewn materion sy'n ymwneud â lles disgyblion.

103. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag ADY yn dda ac yn cydymffurfio â gofynion statudol y Côd Ymarfer. Mae 39 o ddisgyblion ar y rhestr ADY. Mae 5 disgybl ar ddatganiad o anghenion addysgol arbennig, 20 ar gyfnod gweithredu ysgol, a 14 ar gyfnod gweithredu ysgol a mwy.

104. Cydlynir y ddarpariaeth yn dda gan y pennaeth a'r athrawes ADY. Sicrheir bod y disgyblion sydd ag ADY yn cael mynediad llawn i'r cwricwlwm ac i holl weithgareddau eraill yr ysgol. Gwnânt gynnydd da yn ôl lefel eu datblygiad.

105. Adnabyddir anghenion disgyblion yn fuan a chedwir golwg clos ar eu cynnydd. Cydweithia'r ysgol yn dda gydag asiantaethau'r AALl, gyda'r rhieni, a'r ysgolion uwchradd perthnasol.

106. Mae'r gefnogaeth ychwanegol a ddarperir ar gyfer y disgyblion hyn yn y sesiynau tynnu allan yn dda. Darperir tasgau sy'n cyd-fynd yn dda gyda'u hanghenion dysgu ac fe'u cefnogir yn effeithiol iawn gan yr athrawes ADY**.** Mae gan yr athrawes ADY a'r athrawon dosbarth wybodaeth dda am anghenion y disgyblion hyn ac maent yn cydweithio'n agos. Yn ystod sesiynau'r bore, gwneir darpariaeth ychwanegol ar gyfer rhai unigolion ag ADY mewn uned arbennig mewn ysgol gyfagos. Caiff y disgyblion hyn eu hintegreiddio'n effeithiol yn ôl i'w dosbarthiadau yn yr ysgol ar gyfer sesiynau'r prynhawn.

107. Mae cynlluniau addysg unigol (CAU) wedi eu paratoi ar gyfer pob disgybl sydd ar y rhestr o ADY ac mae'r trefniadau ar gyfer adolygu'r cynlluniau hyn yn addas. Mae'r CAU yn cynnwys targedau priodol i'w cyflawni a manylir ar y camau bach y mae angen i'r disgyblion eu meistroli. Mae'r dyddiaduron ymddygiad a'r dyddiaduron dyddiol yn ddull effeithiol o gyfathrebu rhwng y disgyblion, yr athrawon a'r rhieni.

108. Mae'r aelod o'r Corff Llywodraethol sydd â chyfrifoldeb dros ADY yn llawn ymwybodol o'i chyfrifoldebau ac mae ganddi ddealltwriaeth dda iawn o drefniadau'r ysgol.

109. Cydymffurfia'r ysgol â'r gofyniad statudol i benodi aelodau o staff a llywodraethwyr i fod yn gyfrifol am faterion amddiffyn plant. Mae'r polisi a'r canllawiau amddiffyn plant wedi'u cofnodi'n effeithiol ac mae'r holl staff yn ymwybodol o'r protocolau i'w dilyn. Gweithredir y gofynion ar gyfer y disgyblion y gofelir amdanynt gan yr AALl yn gywir.

110. Mae'r ysgol yn cydymffurfio'n llawn â'r gofynion cofrestru, gan wahaniaethu'n briodol rhwng gwahanol fathau o absenoldeb. Mae'r swyddog lles addysg sirol yn helpu lle bo angen. Nod y llywodraethwyr yw gostwng absenoldeb i 5% dros y tair blynedd nesaf.

111. Mae'r polisïau a'r gweithdrefnau ar gyfer cymorth cyntaf, addysg rhyw a chydraddoldeb hiliol yn weithredol ac maent yn hysbys i bawb. Mae'r ysgol yn meddu ar drefniadau priodol er mwyn delio â chwynion ac apeliadau.

112. Mae'r ysgol yn rhoi sylw priodol i faterion iechyd a diogelwch. Caiff offer trydanol ac offer diffodd tân ei archwilio'n rheolaidd. Daw cynrychiolydd o'r heddlu i siarad â'r disgyblion am faterion lles a diogelwch. Mae gan nifer o aelodau o staff gymhwyster cyfredol cymorth cyntaf.

113. Mae'r ysgol yn cydnabod a pharchu amrywiaeth. Mae'r sesiynau addoli ar y cyd yn hyrwyddo dealltwriaeth, goddefgarwch a chyfeillgarwch tuag at bawb o bob cefndir, hil, a chred. O fewn ethos teuluol yr ysgol, caiff pob disgybl ei barchu a'i drin yn deg. Mae disgyblion yn ymweld â synagog fel rhan o'u hastudiaethau addysg grefyddol ac mae'r disgyblion yn casglu llawer o arian at achosion da. Arweinir y disgyblion yn effeithiol i herio stereoteipio ac i feddwl am eu dewisiadau.

114. Mae gweithdrefnau da i atal bwlio ac ymddygiad gormesol. Cynorthwyodd y cyngor ysgol i lunio taflen yn ymwneud â bwlio. Mae'r disgyblion a'r rhieni'n canmol ymateb buan a sensitif yr ysgol i unrhyw ymddygiad anoddefgar. Mae'r ysgol yn ceisio cymorth yr uned ymddygiad sirol os na lwydda ei gweithdrefnau arferol i sicrhau ymddygiad da.

115. Mae'r ysgol wedi cymryd camau priodol i sicrhau nad yw disgyblion sydd ag anableddau corfforol yn cael eu trin yn llai ffafriol na disgyblion sy'n abl yn gorfforol, o safbwynt y cyfleoedd a'r gynhaliaeth a gânt. Mae gan yr ysgol bolisïau cyfredol yn ymwneud â chyfle cyfartal, yn cynnwys cynllun hygyrchedd sydd wedi arenwi mesurau penodol i ganiatáu mynediad i bob rhan o'r ysgol i berson ag anabledd corfforol.

**Cwestiwn Allweddol 5: Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth strategol?**

**Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig**

116. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â dyfarniad Gradd 2 yr ysgol yn ei hadroddiad hunan arfarnu. Mae arweinyddiaeth gadarn y pennaeth a'r Corff Llywodraethol yn sicrhau bod gwerthoedd cytunedig o ran ansawdd y ddarpariaeth addysgol a safonau cyflawniad yn cael eu hyrwyddo'n effeithiol. Mae'r staff yn ymwybodol bod safonau cyrhaeddiad y disgyblion yn asesiadau'r CC yn anwastad o gymharu ag ysgolion tebyg ond mae tystiolaeth eglur bod y cynlluniau i fireinio agweddau ar y cynllunio a'r asesu wedi sicrhau gwelliannau yn arbennig yng nghyraeddiadau disgyblion ar diwedd CA2.

117. Mae arweinyddiaeth a rheolaeth y pennaeth yn dda ac yn cynnig cyfeiriad clir i waith yr ysgol. Mae ei werthoedd cadarn yn hysbys i'r staff, y llywodraethwyr a'r rhieni ac fe'u hadlewyrchir yn amlwg yng ngwaith yr ysgol. Teimla'r disgyblion eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac fe gânt gyfleoedd cyfartal i lwyddo, waeth beth yw eu gallu, hil neu rhyw. Mae'r dirprwy bennaeth yn darparu cefnogaeth effeithiol ac yn fodel rôl da ar gyfer cydweithwyr.

118. Cydweithia'r holl aelodau staff yn dda a meithrinnir ymdeimlad cryf o gefnogaeth y naill at y llall er mwyn hybu datblygiad y disgyblion. Mae'r trefniadau ar gyfer gweithredu'r cytundeb cenedlaethol sy'n ymwneud â baich gwaith wedi eu cynllunio'n ofalus a chânt eu gweithredu'n effeithiol.

119. Mae'r ysgol yn rhoi ystyriaeth dda i flaenoriaethau cenedlaethol, gan gynnwys datblygu'r fenter Ysgol Iach, dwyieithrwydd a'r rhaglen ABaCh. Mae'r ysgol yn llwyddo i godi safonau mewn llythrennedd a rhifedd ac mae wedi ennill Marc Ansawdd yr Asiantaeth Medrau Sylfaenol. Mae'r cynllun i ddarparu cymorth penodol i'r disgyblion ag ADY mewn sesiynau tynnu allan yn sicrhau cynnydd amlwg yn natblygiad addysgol a chymdeithasol y disgyblion. Mae staff y Blynyddoedd Cynnar yn gweithredu egwyddorion y Cyfnod Sylfaen yn effeithiol. Rhoddir sylw da i ddatblygiad proffesiynol y staff a llwyddwyd i ennill achrediad Buddsoddwyr mewn Pobl.

120. Mae'r ysgol yn cydweithio'n dda gyda nifer o bartneriaethau, gan gynnwys ysgolion cynradd ac uwchradd y cylch, ar fentrau megis hyfforddiant staff, cynlluniau pontio a gweithgareddau cwricwlaidd.

121. Gweithredir y polisi a'r gweithdrefnau rheoli perfformiad yn dda. Maent yn cynnwys gwerthusiadau o gyfraniadau aelodau staff sydd yn eu tro yn cyfrannu'n effeithiol at eu datblygiad proffesiynol ac at ddatblygiad y CDY. Caiff y targedau a osodir eu hadolygu yn rheolaidd ac mae cymorth da a hyfforddiant mewn swydd priodol ar gael er mwyn gwella perfformiad staff.

122. Mae prosesau addas ar gyfer gosod targedau i ddisgyblion ar ddiwedd y ddau gyfnod allweddol. Seilir y targedau ar berfformiad tebygol pob disgybl ac, ar y cyfan, maent yn dargedau cyraeddadwy. Mae'r staff yn dadansoddi canlyniadau'r ysgol yn asesiadau'r CC yn ôl deilliannau sirol a chenedlaethol yn

fanwl a gwyddant yr angen i ystyried ymhellach safonau cyrhaeddiad y disgyblion yn erbyn deilliannau ysgolion tebyg. Mae tystiolaeth bod cynlluniau, megis gweithdrefnau tracio cynnydd y disgyblion, cynllunio manwl, cymorth penodol i ddisgyblion ag ADY a datblygu portffolios pwnc, yn sicrhau gwelliannau yn safonau cyrhaeddiad y disgyblion, yn arbennig yn CA2.

123. Mae'r Corff Llywodraethol yn cwrdd yn rheolaidd ac yn cyflawni ei gyfrifoldebau rheolaethol a chyfreithiol yn dda. Mae'r aelodau yn trafod pob agwedd ar waith yr ysgol yn drwyadl yng nghyfarfodydd y Corff Llywodraethol a'i is-bwyllgorau. Maent wedi mabwysiadu polisïau rheolaethol priodol ac maent yn mynychu'r cyrsiau hyfforddiant a drefnir gan yr AALl er mwyn ymestyn eu dealltwriaeth. Derbyniant arweiniad da gan y pennaeth a swyddogion addysg yr AALl ar faterion proffesiynol.

124. Mae'r Corff Llywodraethol yn monitro ansawdd y ddarpariaeth yn briodol drwy dderbyn adroddiadau am agweddau penodol gan y pennaeth a'r arweinwyr pwnc, cysylltu gyda staff perthnasol ac ymweld a'r ysgol er mwyn trafod materion ymhellach. Caiff y baich rheolaethol ei rannu drwy i lywodraethwyr unigol arwain ar agweddau megis ADY, staffio, adeiladau a chyllid. Gwneir defnydd da o arbenigedd a phrofiad proffesiynol aelodau unigol wrth bennu cyfrifoldebau.

125. Mabwysiadodd y llywodraethwyr yr holl bolisïau gofynnol. Mae'r llawlyfr yn cydymffurfio'n llawn â'r gofynion cyfredol ond mae un bwlch bach yng nghynnwys adroddiad blynyddol y Corff Llywodraethol i'r rhieni.

**Cwestiwn Allweddol 6: Pa mor dda y mae'r arweinwyr a'r rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?**

**Gradd 3: Nodweddion da yn gorbwyso diffygion**

126. Nid yw canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â dyfarniad Gradd 2 yn adroddiad hunan arfarnu'r ysgol. Mae ymrwymiad clir ymysg y pennaeth, y staff a'r llywodraethwyr i godi safonau. Er hyn, nid yw'r tîm arolygu o'r farn bod y gweithdrefnau arfarnu, gan gynnwys rôl y cydlynwyr pwnc, wedi eu ffurfioli'n ddigonol er mwyn gwella safonau cyflawniad y disgyblion yn gyson.

127. Sefydlwyd rhaglen ddatblygu cwricwlaidd fanwl a sicrheir bod monitro'r pynciau craidd a sylfaen yn rhan greiddiol ohoni. Er y ceir adroddiadau monitro priodol am y ddarpariaeth bynciol a chyflawniadau disgyblion, nid ydynt yn ddigon manwl parthed monitro'r addysgu a'r dysgu o fewn dosbarthiadau.

128. Rhannwyd cyfrifoldebau datblygu pynciol ymhlith y staff addysgu ac mae'r cydlynwyr yn cyflawni eu cyfrifoldebau cynllunio, ymgynghori a chynnal yn effeithiol. Er hynny, nid yw eu rôl monitro wedi'i ffurfioli'n ddigonol er mwyn sicrhau bod yna weithdrefnau arfarnu cynhwysfawr sy'n cynnig trosolwg sicr o safonau cyflawniad y disgyblion ar draws yr ysgol.

129. Mae'r adroddiad hunan arfarnu, a luniwyd gan yr ysgol, yn gynhwysfawr a chlir. Mae'r ddogfen wedi ei seilio'n addas ar fframwaith yr arolygiad ac mae'r sylwadau wedi eu seilio ar dystiolaeth addas, megis gweithdrefnau, cofnodion a dogfennaeth yr ysgol. Cytunodd y tîm arolygu â barnau'r ysgol mewn pump o'r saith cwestiwn allweddol. Ym mhob achos lle mae gwahaniaeth, dyfarnodd y tîm arolygu radd îs na'r un a ddyfarnwyd gan yr ysgol. Ym marn yr arolygwyr, mae angen sylw pellach ar agweddau ar y ddarpariaeth o fewn y cwestiynau hyn.

130. Trwy drafodaethau ac awgrymiadau, mae'r staff a'r llywodraethwyr wedi cyfrannu'n llawn at y ddogfen sy'n crynhoi canfyddiadau hunan arfarnu'r ysgol. Er hyn, ni sefydlwyd trefn ffurfiol i alluogi'r rhieni a'r disgyblion eu hunain i fynegi barn a chynnig awgrymiadau.

131. Mae'r pennaeth yn cynnal dadansoddiad manwl o asesiadau'r CC a phrofion ysgol er mwyn arenwi cryfderau a gwendidau. Hefyd, caiff canlyniadau asesiadau'r athrawon ar ddiwedd CA1 a CA2 eu dadansoddi yn ôl deilliannau sirol a chenedlaethol. Gyda chymorth swyddog addysg yr AALl, gosodir targedau priodol ar gyfer gwella o ganlyniad i'r dadansoddi hwn.

132. Mae'r CDY, sy'n gynllun tair blynedd, yn ddogfen gynllunio effeithiol. Mae'r blaenoriaethau a nodir ynddi yn rhai cyfredol a chyflawnwyd nifer ohonynt yn barod. Defnyddir prosesau priodol er mwyn gosod targedau addas, a dadansodda'r pennaeth a'r Corff Llywodraethol gweithrediad y cynlluniau gweithredu yn effeithiol. Gwneir cynnydd cyson wrth fynd i'r afael â'r prif dargedau a osodwyd, a gwelir gwelliannau mewn meysydd megis ADY, dwyieithrwydd ac ymestyn y cwricwlwm. Er hyn, nid oes cysylltiad digon pendant rhwng canfyddiadau'r broses hunan arfarnu â blaenoriaethau'r CDY.

133. Mae cynlluniau gweithredu'r CDY yn cynnwys costiadau cyffredinol, amserlenni a meini prawf ar gyfer mesur llwyddiant. Caiff y gyllideb ei rheoli'n ofalus ac fe gysylltir gwariant yn agos â phrif flaenoriaethau'r ysgol.

134. Mae'r ysgol wedi rhoi sylw da i'r materion i weithredu arnynt a nodwyd yn adroddiad 2001. Llwyddwyd i ddiweddaru'r cynlluniau gwaith ynghyd â'r cynllun gwaith addysg grefyddol cytunedig. Ymatebwyd yn effeithiol i ddatblygu rôl fonitro'r Corff Llywodraethol. Mae bwlch bach yn parhau yng nghynnwys adroddiad blynyddol y Corff Llywodraethol i rieni.

**Cwestiwn Allweddol 7: Pa mor effeithlon yw'r arweinwyr a'r rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau?**

**Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig**

135. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â dyfarniad Gradd 2 yn adroddiad hunan arfarnu'r ysgol.

136. Cefnogir y disgyblion yn dda gan athrawon digonol â chymwysterau a phrofiad priodol. Mae'r athrawon a'r staff cynorthwyol yn mynychu cyrsiau hyfforddiant sydd yn cyfrannu'n effeithiol at ddatblygu eu gwybodaeth pwnc, ynghyd â'u medrau addysgu.

137. Mae'r cynorthwywyr dosbarth a'r holl staff ategol eraill yn cyfrannu'n dda at ansawdd yr dysgu, gweinyddiad ac ethos yr ysgol. Derbyniodd yr ysgol yr achrediadau Marc Safon yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol a Buddsoddwyr mewn Pobl.

138. Caiff y trefniadau ar gyfer darparu cyfnodau i'r athrawon gynllunio, asesu a pharatoi eu gweithredu'n effeithiol. Defnyddir staff profiadol ar gytundebau penodol i ryddhau athrawon dosbarth. Mae'r ysgol yn cwrdd â'r gofynion, a rheolir yr trefniadau yn effeithiol.

139. Mae swm a chyflwr yr adnoddau ar gyfer addysgu a dysgu yn ddigonol ac maent yn hwylus i'r disgyblion eu defnyddio. Ar y cyfan, gwneir defnydd effeithiol ohonynt. Mae'r ysgol yn ymwybodol bod angen ymestyn y defnydd o'r cyfrifiaduron ar gyfer cynorthwyo dysgu'r disgyblion ar draws y cwricwlwm. Tu allan i'r adeilad, mae'r disgyblion yn cael budd o'r nodweddion addysgol a farciwyd ar yr iard galed ac mae gardd ysgol yn hybu eu dealltwriaeth o fyd natur.

140. Er bod yr ysgol wedi ei chodi yng nghanol stad o dai, saif mewn tir eang a braf. Mae nifer a maint yr ystafelloedd yn ddigonol. Mae gan yr ysgol neuadd fawr, sydd hefyd yn dyblu fel ffreutur amser cinio, gyda bwyd yn cael ei weini o gegin gerllaw.

141. To fflat sydd i bob dosbarth. Er bod rhannau o'r ysgol wedi eu cynnal a'u cadw'n briodol, mae rhannau eraill yn fregus, gyda phaneli pren yn pydru a thoeau'n gollwng. Bu'r llywodraethwyr yn pwyso ers cyn amser ar yr AALl i ddelio â'r diffygion hyn. Cafwyd addewid i'w cywiro dros gyfnod o bum mlynedd. Nid yw pob rhan o'r adeilad yn caniatáu mynediad addas ar gyfer yr anabl. Mae tu fewn a thu allan yr ysgol yn cael eu cadw'n lân a thaclus.

142. Gwna'r arddangosfeydd ar furiau ystafelloedd ac yn y cynteddau gyfraniad effeithiol i greu ethos sydd yn cydnabod gwaith y disgyblion ac yn dathlu eu llwyddiannau.

143. Mae rheolaeth ddyddiol yr ysgol yn dda a gwneir defnydd effeithiol o arbenigeddau y Llywodraethwyr i gefnogi'r ysgol.

144. Mae'r Corff Llywodraethol a'r pennaeth, gyda chefnogaeth effeithiol swyddog cyllid yr AALl, yn adolygu a monitro'r anghenion adnoddau yn unol â thargedau'r CDY. Mae'r gwariant ar adnoddau yn adlewyrchu blaenoriaethau'r ysgol. Mae swm sylweddol o arian mewn llaw ond mae cynlluniau manwl i wario'r arian ar gynlluniau megis cynnal lefelau staffio'r ysgol a sicrhau gwelliannau pellach i'r ddarpariaeth addysgol. Mae'r ysgol yn cynnig gwerth da am arian.

## Safonau a gyflawnir mewn pynciau a meysydd dysgu

### Saesneg

**Cyfnod allweddol 1: Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig**
**Cyfnod allweddol 2: Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig**

**Nodweddion da**

145. Yn CA1, mae'r disgyblion yn gwrando'n dda iawn ar gyflwyniadau'r athrawon ac ar ei gilydd. Ymatebant yn dda wrth ateb cwestiynau a bydd nifer o unigolion yn cynnig sylwadau estynedig. Maent yn siarad yn glir, gan ddefnyddio geirfa briodol. Mynegant eu syniadau a'u barn yn hyderus.

146. Mae safonau darllen y disgyblion yn dda. Mae'r disgyblion ieuengaf yn adnabod geiriau ac ymadroddion ac yn darllen llyfrau syml yn gywir. Erbyn diwedd y cyfnod allweddol, mae'r disgyblion yn darllen yn rhugl ac yn gywir. Gallant ddisgrifio ac ymateb i gymeriadau sy'n eu llyfrau, gan fynegi barn syml am yr hyn a ddarllenant.

147. Mae'r disgyblion yn ysgrifennu i wahanol ddibenion. Maent i gyd yn ysgrifennu eu newyddion eu hunain yn annibynnol gyda mesur rhesymol o gywirdeb. Defnyddiant amrywiaeth o batrymau brawddegol ac maent yn atalnodi'n briodol. Erbyn diwedd y cyfnod allweddol, gall y mwyafrif helaeth gwblhau ymarferion darllen a deall yn gywir ac ailysgrifenant storïau cyfarwydd, gan sillafu gyda gradd dda o gywirdeb.

148. Yn CA2, mae sgiliau gwrando'r disgyblion yn dda iawn. Maent yn gwrando'n astud ar eu hathrawon a'u cyd-ddisgyblion ac yn canolbwyntio am gyfnodau estynedig. Gallant ddwyn i gôf yn dda yr hyn y maent wedi ei glywed. Maent yn cyfnewid barn yn effeithiol, gan ddefnyddio ffurfiau iaith priodol.

149. Mae safonau darllen yn dda ar draws y cyfnod allweddol gydag unigolion yn cyrraedd safon uchel. Darllena'r mwyafrif yn rhugl, gan ddefnyddio goslef a mynegiant da wrth ddarllen yn uchel. Mae gan unigolion hoff awduron a gallant drafod gwaith yr awduron hyn yn hyderus. Mae'r mwyafrif helaeth o'r disgyblion yn gwybod o ba ffynhonnell y gellir dod o hyd i wybodaeth.

150. Mae'r disgyblion yn cynhyrchu gwaith ysgrifenedig amrywiol i wahanol bwrpasau. Mae sillafu nifer helaeth o'r disgyblion yn dda. Gallant atalnodi eu gwaith yn briodol. Gwnânt ddefnydd priodol o eiriaduron er mwyn gwella eu hysgrifennu. Dengys y disgyblion ddiddordeb mewn ysgrifennu barddoniaeth ar amrywiol destunau. Defnyddiant ddelweddau, cymariaethau ac odl yn effeithiol iawn. Cynhyrcha'r ysgrifenwyr mwyaf galluog ddarnau estynedig sy'n ddiddorol a dychmygus. Mae mwyafrif helaeth y disgyblion wedi datblygu llawysgrifen raenus.

**Diffygion**

151. Yn CA1, annatblygedig yw gallu'r disgyblion i ysgrifennu'n greadigol.

152. Yn CA2, mae lleiafrif bychan yn ddihyder wrth fynegi eu hunain ar lafar ac nid yw rhai unigolion yn rhoi sylw i atalnodi wrth ddarllen. Mae sillafu ac atalnodi yng ngwaith ysgrifennu rhai unigolion yn anghyson.

## Mathemateg

**Cyfnod Allweddol 1: Gradd 3: Nodweddion da yn gorbwyso diffygion**
**Cyfnod Allweddol 2: Gradd 3: Nodweddion da yn gorbwyso diffygion**

### Nodweddion da

153. Yn CA1, gall y disgyblion adio a thynnu rhifau i ffwrdd i fyny at 20, ac arddangosant afael gadarn ar fondiau rhif. Maent yn gallu dyblu a haneru rhifau syml yn rhwydd ac adnabod dilyniannau rhif, gan gynnwys odrifau ac eilrifau. Gall disgyblion mwy galluog B2 gyfrif ymlaen ac yn ôl mewn camau o wahanol feintiau, gan arddangos ymwybyddiaeth sicr o batrymau rhif. Mae dealltwriaeth y disgyblion mwy galluog o werth lle yn dda.

154. Mae'r disgyblion yn adnabod ac yn dosbarthu siapau dau-ddimensiwn ac yn disgrifio'u nodweddion yn gywir. Maent yn gwybod gwerth darnau arian gwahanol ac yn eu defnyddio'n gywir i gyfrifo symiau o arian. Yn eu gwaith mesur, defnyddiant fesurau ansafonol a safonol yn briodol.

155. Yn CA2, mae dealltwriaeth y disgyblion o werth lle, gan ddefnyddio rhifau hyd at bedwar digid, yn gadarn. Mae'r mwyafrif helaeth yn ymdrin â phrosesau adio, tynnu, lluosi a rhannu yn effeithiol ar bapur. Mae ganddynt ddealltwriaeth briodol o ffracsiynau ac mae gan y disgyblion mwy galluog ddealltwriaeth sicr o'r cysylltiad rhwng ffracsiynau, canrannau a degolion.

156. Mae'r disgyblion yn dynodi nodweddion a phriodweddau y siapau dau a thri dimensiwn mwyaf cyfarwydd yn gywir. Gallant ddewis pa unedau mesur sydd eu hangen mewn gwahanol gyd-destunau. Gallant ddatrys problemau yn ymwneud â threigl amser yn gywir.

157. Mewn lleiafrif bach o'r dosbarthiadau, mae'r disgyblion yn casglu data at wahanol ddibenion ac yn cofnodi'n drefnus, gan ddefnyddio tablau a graff bloc. Yn y gwaith gorau, maent yn dadansoddi ac yn dehongli'r data yn effeithiol.

158. Mae mwyafrif sylweddol y disgyblion yn defnyddio geirfa fathemategol cywir wrth gofnodi eu gwaith.

### Diffygion

159. Yn y ddau gyfnod allweddol, nid yw medrau a gwybodaeth lleiafrif sylweddol o'r disgyblion o waith siâp a mesur, a thrin data wedi'u datblygu'n ddigonol.

160. Yn y ddau gyfnod allweddol, mae lleiafrif sylweddol o'r disgyblion yn dangos diffyg hyder wrth egluro'u dulliau o ddatrys problemau rhif yn y pen.

161. Yn CA2, nid yw’r disgyblion yn cymhwyso eu medrau i ddatrys problemau mathemategol yn ddigonol.

## Dylunio a thechnoleg

**Cyfnod allweddol 1: Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig**
**Cyfnod allweddol 2: Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig**

### Nodweddion da

162. Yn CA1, mae’r disgyblion yn gweithio gydag ystod priodol o ddeunyddiau a chydrannau ar gyfer creu gwrthrychau a modelau. Creant gynlluniau effeithiol, gan ddewis deunyddiau addas ar gyfer eu cynhyrchion.

163. Cofnodant yn drefnus y camau a gymrwyd i wneud eu cynhyrchion. Gwerthusant eu cynhyrchion yn syml, gan nodi pa welliannau y gellid eu gwneud. Mae eu medrau gwneud yn dda.

164. Yn CA2, mae gan y disgyblion ddealltwriaeth sicr o'r broses ddylunio a gwneud. Gweithiant gydag amrywiaeth addas o ddefnyddiau ac offer i greu cynhyrchion gwahanol.

165. Mae’r disgyblion yn cynhyrchu deiagramau a dyluniadau priodol i esbonio eu syniadau. Dilynant gyfarwyddiadau, gan gofnodi’n glir y camau a ddefnyddir. Gallant dorri ac uno deunyddiau mewn gwahanol ffyrdd yn ofalus.

166. Gwna’r disgyblion ddefnydd da o’u gwybodaeth bynciol mewn meysydd megis gwyddoniaeth a chelf i’w cynorthwyo gyda’u tasgau. Mae’r gwaith creu ‘tortsys’ yn enghraifft dda o hyn.

167. Ymchwilia’r disgyblion yn briodol i ddod o hyd i wybodaeth am wahanol fathau o gynhyrchion. Yn yr arfer gorau, defnyddia’r disgyblion ystod o ffynonellau gwybodaeth yn effeithiol i’w cynorthwyo wrth ymchwilio i offerynnau cerdd.

168. Wrth drafod eu cynhyrchion, gall y disgyblion egluro pa ddefnyddiau a ddefnyddiwyd ganddynt a sut yr aethpwyd ati i’w gwneud. Cynigiant werthusiadau synhwyrol o’u cynhyrchion gorffenedig.

### Diffygion

169. Yn y ddau gyfnod allweddol, nid yw gallu lleiafrif bach o’r disgyblion i werthuso eu gwaith ac i awgrymu sut y gellid ei wella wedi’i ddatblygu’n ddigonol.

## Celf

**Cyfnod allweddol 1: Gradd 2:Nodweddion da a dim diffygion pwysig**
**Cyfnod allweddol 2: Gradd 2:Nodweddion da a dim diffygion pwysig**

### Nodweddion da

170. Yn CA1, mae'r disgyblion yn defnyddio amrediad da o adnoddau a chyfryngau ac yn cynhyrchu gwaith o safon dda. Dangosant reolaeth dda dros nifer o dechnegau wrth iddynt ddarlunio a pheintio o arsylwadau ac o'r côf.

171. Dangosant hyder wrth gymysgu lliwiau i greu arlliwiau newydd. Ymchwiliant i ddeunyddiau naturiol ac arbrofant yn dda gyda gwahanol gyfryngau i gynhyrchu amrywiol effeithiau yn dda.

172. Cydweithia'r disgyblion yn dda i greu 'collage' diddorol fel efelychiad o waith arlunydd enwog. Defnyddiant amrywiaeth dda o gyfryngau wrth weithio, gan gynnwys elfennau dau a thri dimensiwn yn y gwaith. Cynhyrchant waith gorffenedig o safon dda.

173. Mewn ymateb i ysgogiad, cynhyrchwyd mygydau diddorol o ansawdd da. Trafoda'r disgyblion y gwaith yma gyda brwdfrydedd.

174. Mae datblygiad pellach yn CA2 wrth i'r disgyblion arsylwi, arbrofi a chreu mewn gwahanol gyfryngau. Rheolant yn fedrus amrywiaeth o ddeunyddiau, offer a thechnegau er mwyn cael gwahanol ganlyniadau. Mae eu dealltwriaeth a'u triniaeth o linell, gwead, tôn a siâp yn dda.

175. Defnyddiant lyfrau braslunio yn reolaidd a chymhwysant eu gwybodaeth i'w tasgau yn briodol. Arsylwant yn fanwl wrth wneud lluniau bywyd llonydd a phortreadau.

176. Rhoddodd cydweithio gydag artist preswyl brofiadau gwerthfawr a chyfoethog i'r disgyblion. Yn dilyn y cydweithio yma, cynhyrchwyd murluniau a gwaith unigol diddorol. Dewiswyd adnoddau addas i'r tasgau, a defnyddiwyd amrediad o dechnegau yn fedrus.

177. Mae disgyblion hynaf y cyfnod allweddol wedi ymweld ag oriel gyfagos a thrafodant eu hargraffiadau yn briodol. Arddangosant fesur da o hyder wrth drafod eu gwaith ac mae ganddynt syniadau gwreiddiol ym maes celf.

178. Yn y ddau gyfnod allweddol, mae'r disgyblion yn ymwybodol o waith arlunwyr enwog, gan gynnwys arlunwyr o Gymru. Efelychant arddull rai ohonynt yn eu gwaith eu hunain yn effeithiol.

179. Yn y ddau gyfnod allweddol, mae'r disgyblion yn cyplysu eu medrau celf yn gelfydd gydag agweddau eraill o'r cwricwlwm ac arddangosir gwaith o safon dda a da iawn.

### Diffygion

180. Yn y ddau gyfnod allweddol, annatblygedig yw gallu'r disgyblion i ddefnyddio termau celf.

## Addysg Gorfforol

Cyfnod allweddol 1: Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

Cyfnod allweddol 2: Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

Yn ystod yr arolygiad, arolygwyd gwers dawns yn CA1 a gwers gymnasteg yn CA2.

### Nodweddion da

181. Yn y ddau gyfnod allweddol, mae'r disgyblion yn deall pwysigrwydd cynhesu'r corff ar ddechrau ymarfer ac ymlacio'r corff ar ôl ymarfer.

182. Yn y ddau gyfnod allweddol, mae'r disgyblion yn gweithio'n gorfforol galed. Gwrandawant yn astud ar gyfarwyddiadau'r athrawon a dangosant ymwybyddiaeth dda o le.

183. Yn y ddau gyfnod allweddol, gŵyr y disgyblion yn dda am yr angen i sicrhau diogelwch yn ystod y gwersi. Gall disgyblion CA2 egluro'n eglur effaith lesol ymarfer y corff ar iechyd.

184. Mae disgyblion CA1 yn perfformio symudiadau a phatrymau gosod yn dda wrth ymarfer dawnsio Cymreig traddodiadol. Gall y mwyafrif helaeth o'r disgyblion weithio'n effeithiol mewn parau a grwpiau mwy.

185. Yn CA2, gall y disgyblion lunio dilyniant o symudiadau ar yr offer yn effeithiol. Dangosant reolaeth dda ar eu cyrff, gan gadw cydbwysedd yn gyson. Dangosant dechnegau neidio a glanio da tra'n ddefnyddio gwahanol offer.

186. Gall y disgyblion werthuso a rhoi barn adeiladol am eu gwaith eu hunain a gwaith disgyblion eraill. Defnyddiant dermau cywir wrth drafod eu perfformiadau.

### Diffygion

187. Yn CA1, nid yw gallu lleiafrif sylweddol o'r disgyblion i werthuso eu perfformiadau wedi'i ddatblygu'n ddigonol.

## Addysg grefyddol

**Cyfnod Allweddol 1: Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig**

**Cyfnod Allweddol 2: Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig**

Gwneir defnydd llawn o faes llafur y Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG) lleol.

### Nodweddion da

188. Yn CA1, mae gan y disgyblion wybodaeth sicr am hanesion cyfarwydd o'r Beibl. Gallant eu dwyn i gof a'u hailadrodd ar lafar, mewn lluniau ac yn ysgrifenedig. Mae'r disgyblion yn gwybod mai'r Beibl yw llyfr arbennig y Cristnogion.

189. Mae disgyblion yn ymwybodol o'r prif wyliau eglwysig ac o arwyddocâd dyddiau pwysig. Mae eu dealltwriaeth o symbolau crefyddol yn datblygu'n dda.

190. Mae'r disgyblion yn gyfarwydd â dathliadau mewn crefyddau eraill. Gallant drafod dathliadau Hindŵaidd megis Y Diwali gyda diddordeb.

191. Mae gan y disgyblion ddealltwriaeth dda o egwyddorion, megis yr hyn sy'n gwneud ffrindiau da, a gallant eu trafod yn synhwyrol.

192. Yn CA2, mae gan y disgyblion ddealltwriaeth dda o gredoau a gwerthoedd Cristnogol. Gallant siarad am ymweliad â'r eglwys leol a medrant esbonio arwyddocâd gwasanaeth Cristnogol. Cyfeiriant at nodweddion arbennig megis y fedyddfan a'r pulpud a'u harwyddocâd.

193. Gŵyr y disgyblion fod addoli yn bwysig ym mhob crefydd a gallant ysgrifennu gweddïau sensitif i gyfrannu at gyfnodau addoli ar y cyd.

194. Mae disgyblion CA2 yn ymwybodol fod y Beibl yn llyfr arbennig i Gristnogion. Gallant ailadrodd hanesion o'r Beibl a gwyddant am rai o gymeriadau'r Hen Destament ynghyd â hanesion am fywyd yr Iesu.

195. Mae'r disgyblion hynaf yn deall pwrpas rheolau a'r canlyniadau o'u torri. Gwyddant am reolau'r ysgol, y cartref a'r ffordd fawr. Deallant fod diogelu'r amgylchfyd yn bwysig ac maent yn ymwybodol o arwyddocâd teuluoedd a chymunedau.

196. Mae'r disgyblion yn gyfarwydd ag elfennau o grefyddau eraill, megis Iddewiaeth a Mwslemiaith. Gall disgyblion B5, er enghraifft,siarad yn dda am draddodiadau a dysgeidiaeth y ffydd Iddewig.

197. Gyda chefnogaeth cymuned ofalgar, teimla'r disgyblion yn gyfrifol am y rhai sydd yn llai ffodus na hwy eu hunain a thrafodant bwysigrwydd parchu barnau eraill yn synhwyrol.

**Diffygion**

198. Yn y ddau gyfnod allweddol, nid yw gallu lleiafrif sylweddol y disgyblion i drafod storïau o'r Testament Newydd wedi datblygu'n ddigonol.

## Ymateb yr ysgol i'r arolygiad

Hoffwn fanteisio ar y cyfle i ddatgan ein diolch i'r tîm a fu'n gyfrifol am Arolygu Ysgol Nant y Coed am y modd y bu iddynt gynnal yr arolwg. Fel aelodau o staff yr ysgol, llywodraethwyr, rhieni a phlant yr ysgol teimlwyd fod aelodau'r tîm wedi bod yn hollol broffesiynol, trylwyr ac yn barod iawn i wrando ar unrhyw sylw perthnasol; cyn, yn ystod ac wedi'r arolwg.

Yn gyffredinol roeddem yn fodlon gyda chanlyniad yr arolwg gydag ambell i eithriad. Rydym hefyd yn gobeithio fod y canfyddiadau yn adlewyrchiad o'r hyn sy'n digwydd yn yr ysgol o ddydd i ddydd.

Ni allwn laesu dwylo ac rydym yn ymwybodol bod angen rhoi sylw i ddatblygu ambell i faes fel bod modd gwella arnynt. Hoffwn ddiolch i'r tîm Arolygu am dynnu ein sylw at unrhyw ddiffyg ac fe allwn eich sicrhau y byddwn yn ymdrechu i ymateb yn gadarnhaol i 'r argymhellion a wnaed.

## Atodiad 1

### Gwybodaeth sylfaenol am yr ysgol

| | |
|---|---|
| Enw'r ysgol | Ysgol Nant y Coed |
| Math o ysgol | Meithrin a Chynradd |
| Ystod oedran y disgyblion | 3-11oed |
| Cyfeiriad yr ysgol | Rhodfa Ronald<br>Cyffordd Llandudno<br>Conwy |
| Cod post | LL31 9EU |
| Rhif ffôn | 01492 581900 |

| | |
|---|---|
| Pennaeth | Mr A H Roberts |
| Dyddiad penodi | Medi 1999 |
| Cadeirydd y llywodraethwyr | Mr D Durrington |
| Arolygydd cofrestredig | Miss D Morris |
| Dyddiadau'r arolygiad | 6-8 Chwefror, 2007 |

## Atodiad 2

### Data a dangosyddion ysgol

| Nifer y disgyblion ym mhob grŵp blwyddyn | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Grŵp blwyddyn | M (call) | D | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 | Cyfanswm |
| Nifer y disgyblion | 10.5 | 20 | 21 | 28 | 29 | 21 | 28 | 34 | 191.5 |

| Cyfanswm nifer yr athrawon | | | |
|---|---|---|---|
| | Amser llawn | Rhan-amser | Cyfwerth ag amser llawn (call) |
| Nifer yr athrawon | 8 | 2 | 9 |

| Gwybodaeth staffio | |
|---|---|
| Cymhareb disgybl: athro (call) (ac eithrio dosbarthiadau meithrin ac arbennig) | 20.1:1 |
| Cymhareb disgybl: oedolyn (call) mewn dosbarthiadau meithrin | 10.5:1 |
| Cymhareb disgybl: oedolyn (call) mewn dosbarthiadau arbennig | - |
| Cyfartaledd maint dosbarth, ac eithrio dosbarthiadau meithrin ac arbennig | 25.8 |
| Cymhareb athro (call): dosbarth | 1.12:1 |

| Canran presenoldeb ar gyfer y tri thymor cyflawn cyn yr arolygiad | | | |
|---|---|---|---|
| Tymor | M | D | Gweddill yr ysgol |
| Gwanwyn 06 | 91.3 | 92.7 | 91.0 |
| Haf 06 | 95.0 | 92.3 | 93.2 |
| Hydref 06 | 91.2 | 92.2 | 92.6 |

| | |
|---|---|
| Canran y disgyblion gyda'r hawl i brydau ysgol am ddim | 16% |
| Nifer y disgyblion wedi'u gwahardd yn ystod y 12 mis cyn yr arolygiad | 0 |

## Atodiad 3

### Canlyniadau Asesu'r Cwricwlwm Cenedlaethol Diwedd Cyfnod Allweddol 1:

| **Canlyniadau Asesiadau CA1 y Cwricwlwm Cenedlaethol 2006** | | | Nifer y disgyblion yn B2 | | *28* | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Canran y disgyblion ar bob lefel** | | | | | | | |
| | | | D | W | 1 | 2 | 3 |
| Saesneg: | Asesiad athro | Ysgol | 0 | 0 | 28 | 59 | 14 |
| | | Cenedlaethol | 0 | 4 | 12 | 64 | 20 |
| Mathemateg | Asesiad athro | Ysgol | 0 | 0 | 28 | 52 | 21 |
| | | Cenedlaethol | 0 | 2 | 10 | 63 | 24 |
| Gwyddoniaeth | Asesiad athro | Ysgol | 0 | 0 | 24 | 52 | 24 |
| | | Cenedlaethol | 0 | 2 | 9 | 65 | 24 |

| Canran y disgyblion yn cyrraedd o leiaf lefel 2 mewn mathemateg, gwyddoniaeth a Saesneg neu Gymraeg (iaith gyntaf) yn ôl asesiad athro | | | |
|---|---|---|---|
| Yn yr ysgol | 65% | Yng Nghymru | 81% |

D Disgyblion sydd wedi'u datgymhwyso o'r trefniadau statudol
W Disgyblion sy'n gweithio tuag at lefel 1

### Canlyniadau Asesu'r Cwricwlwm Cenedlaethol Diwedd Cyfnod Allweddol 2:

| **Canlyniadau Asesiadau CA2 y Cwricwlwm Cenedlaethol 2006** | | | | | | | | | Nifer y disgyblion yn B6 | | *34* |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Canran y disgyblion ar bob lefel** | | | | | | | | | | | |
| | | | D | A | F | W | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 |
| Saesneg | Asesiad athro | Ysgol | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 8 | 64 | 28 |
| | | Cenedlaethol | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 | 4 | 15 | 47 | 32 |
| Mathemateg | Asesiad athro | Ysgol | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 20 | 68 | 12 |
| | | Cenedlaethol | 0 | 0 | 1 | 0 | 10 | 0 | 15 | 47 | 32 |
| Gwyddoniaeth | Asesiad athro | Ysgol | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 4 | 84 | 12 |
| | | Cenedlaethol | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 | 2 | 11 | 51 | 35 |

| Canran y disgyblion yn cyrraedd o leiaf lefel 4 mewn mathemateg, gwyddoniaeth a naill ai Saesneg neu Gymraeg (iaith gyntaf) | | | |
|---|---|---|---|
| yn ôl Asesiad Athro | | | |
| Yn yr ysgol | 76% | Yng Nghymru | 74% |

D Disgyblion a eithrir dan drefniadau statudol o ran o'r Cwricwlwm Cenedlaethol neu'r cyfan ohono
A Disgyblion sydd wedi methu cofrestru lefel oherwydd absenoldeb
F Disgyblion sydd wedi methu cofrestru lefel am resymau ar wahân i absenoldeb
W Disgyblion sy'n gweithio tuag at lefel 1

## Atodiad 4

**Sail dystiolaeth yr arolygiad**

- Cynhaliwyd yr arolygiad gan dîm o bedwar arolygydd a oedd yn bresennol yn yr ysgol am 10 diwrnod arolygydd. Roedd enwebai'r ysgol yn rhan o'r tîm arolygu.
- Cynhaliwyd cyfarfodydd cyn-arolygiad gyda'r rhieni a'r Corff Llywodraethol i drafod bywyd a gwaith yr ysgol.
- Cwblhaodd rhieni 36 o holiaduron a chawsant eu dadansoddi'n ofalus.
- Cynhaliwyd trafodaethau gyda'r pennaeth, y staff â chyfrifoldebau penodol a'r staff cefnogi.
- Archwiliwyd dogfennaeth yr ysgol.
- Arsylwyd 32 o wersi, yn ogystal â rhannau o sesiynau addysgu.
- Gwrandawyd ar ddisgyblion o'r ystod gallu cyfan ym mhob grŵp blwyddyn yn darllen yn Saesneg.
- Cynhaliwyd trafodaethau gyda disgyblion ynglŷn â'u gwaith ac am fywyd yr ysgol.
- Arsylwyd ymddygiad y disgyblion yn ystod amseroedd egwyl, amser cinio ac ar ddiwedd a dechrau'r sesiynau ysgol.
- Mynychodd yr arolygwyr sesiynau addoli ar y cyd ac arsylwyd gweithgareddau allgyrsiol.
- Cynhaliwyd cyfarfodydd ôl-arolygiad gyda'r staff a'r Corff Llywodraethol.

## Atodiad 5

**Cyfansoddiad a chyfrifoldebau'r tîm arolygu**

| **Aelod Tîm** | **Cyfrifoldebau** |
|---|---|
| Miss D Morris<br>Arolygydd Cofrestredig | Cyd-destun, Crynodeb ac argymhellion<br>Cwestiynau Allweddol 1, 2 (Addysgu) 5, 7 Atodiadau<br>Addysg grefyddol, addysg gorfforol |
| Mrs R Huws-Roberts<br>Arolygydd Tîm | Cwestiynau Allweddol 3, 6<br>Saesneg, celf |
| Mrs B Bates<br>Arolygydd Tîm | Cwestiynau Allweddol 2 (Asesu),4<br>Mathemateg, dylunio a thechnoleg |
| Mr J Roberts<br>Arolygydd Lleyg | Cyfraniadau at gwestiynau 1, 3, 4 a 7 |
| Mr A Roberts<br>Pennaeth | Enwebai |

***Cydnabyddiaeth***
***Hoffai'r tîm arolygu ddiolch i'r llywodraethwyr, y pennaeth, staff, disgyblion a rhieni am eu cydweithrediad a'u cwrteisi trwy gydol yr arolygiad.***

**Contractwr:**
Tîm Arolygu Swydd Lincoln
37 Park Drive
Grimsby
North East Lincolnshire
DN32 OEG